# Newid y ffordd y mae ysgolion annibynnol yn cael eu cofrestru a'u cymeradwyo i dderbyn plant ag anghenion addysgol arbennig

## Crynodeb o'r ymgynghoriad i bobl ifanc

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# Cyflwyniad

**Ystyr AAA yw anghenion addysgol arbennig.**

Mae gan rai plant a phobl ifanc AAA.

Gall hyn olygu eu bod nhw'n ei chael hi'n anodd:

- gwneud gwaith ysgol
- deall gwybodaeth
- gwneud ffrindiau
- rhoi gwybod i bobl beth maen nhw'n ei feddwl

neu bod ganddyn nhw anabledd neu broblem gorfforol y mae angen help arnyn nhw ag ef.

Mae yna lawer o ffyrdd y mae plant a phobl ifanc ag AAA yn derbyn cymorth.

Daw rhywfaint o'r cymorth yma drwy ysgolion annibynnol.

Ysgol y mae elusen neu grŵp yn ei rhedeg yn breifat yw ysgol annibynnol; weithiau, mae rhieni'n talu ac weithiau mae awdurdodau lleol yn talu.

**Mae Llywodraeth Cymru eisiau i bob ysgol annibynnol fod cystal â phosib.**

Rydyn ni hefyd eisiau iddyn nhw fod yn lleoedd diogel y gall plant a phobl ifanc ag AAA fynd iddyn nhw.

Mae'r llyfryn yma'n dweud wrthoch chi am rai o'r newidiadau rydyn ni eisiau eu gwneud.

**Rydyn ni eisiau gwybod beth yw'ch barn chi ar hyn.**

# Sut mae pethau'n gweithio ar hyn o bryd

Mae yna ddwy system wahanol sy'n caniatáu i ysgolion annibynnol dderbyn dysgwyr ag AAA. Ar ôl cytuno eu bod nhw'n cael gwneud hynny, gallan nhw ddechrau addysgu dysgwyr ag AAA. Mae'r systemau yma'n rhan o gyfraith addysg. Mae rhywfaint o gyfraith addysg wedi'i hysgrifennu mewn dogfennau o'r enwau 'Deddfau', sy'n nodi eu henw a'r flwyddyn y cawson nhw eu gwneud.

## Y system gyntaf – adran 347 o Ddeddf Addysg 1996

Mae pob Deddf yn cynnwys gwahanol adrannau neu benodau. Mae adran 347 yn un o'r rhain.

**Dan reolau adran 347:**

- mae'n rhaid i ysgol annibynnol wneud cais i Weinidogion Cymru i gael ei chymeradwyo i addysgu plant ag AAA
- gall rhieni/gofalwyr ofyn a all eu plentyn fynd i ysgol, hyd yn oed os nad yw wedi'i chymeradwyo.

Yna gall Gweinidogion Cymru benderfynu a yw'r ysgol yn gallu diwallu'r anghenion.

## Yr ail system – adran 160 o Ddeddf Addysg 2002

**Dan reolau adran 160:**

- mae'n rhaid i ysgol annibynnol sydd eisiau addysgu disgyblion ag AAA wneud cais i Weinidogion Cymru i gofrestru fel ysgol annibynnol, gan bod peidio â gwneud hynny'n torri'r gyfraith.

Pan maen nhw'n gwneud cais, mae'n rhaid iddyn nhw roi gwybodaeth fel:

- ystod oedran a nifer y dysgwyr y maen nhw eisiau eu haddysgu
- a ydyn nhw'n derbyn merched neu fechgyn, neu'r ddau
- a oes yna lety neu ystafelloedd i aros dros nos
- y mathau o AAA y maen nhw'n gallu eu cefnogi.

Mae'n rhaid i'r ysgol annibynnol hefyd roi gwybod i Weinidogion Cymru os yw unrhyw ran o'r wybodaeth yma'n newid o gwbl.

# Yr hyn rydyn ni eisiau ei newid

**Rydyn ni eisiau cael gwared â'r system gyntaf – adran 347.**

Buasai hynny'n golygu mai dim ond dan reolau adran 160 y byddai'n rhaid i bob ysgol annibynnol gofrestru i dderbyn dysgwyr ag AAA.

**Rydyn ni o'r farn y dylen ni wneud y newidiadau yma oherwydd:**

- mae rheolau adran 160 yn debyg i'r rheolau yn adran 347
- ers Deddf Addysg 2002, mae ysgolion annibynnol wedi gwella ac mae ganddyn nhw safonau gwell erbyn hyn
- bydd yn fwy syml defnyddio un system a bydd yn dal i helpu i gadw dysgwyr yn ddiogel
- mae awdurdodau lleol yn gwybod ac yn deall anghenion y dysgwyr ag AAA yn eu hardaloedd a gallan nhw ddod o hyd i'r ysgol orau i ddiwallu eu hanghenion.

Weithiau, nid yw rhieni/gofalwyr yn hoffi'r ysgol sydd wedi'i dewis ar gyfer eu plentyn. Bydd gan rieni/gofalwyr yn un hawliau o hyd i ddweud nad ydyn nhw'n cytuno â'r penderfyniad yma a gofyn a oes modd ei newid.

Rydyn ni o'r farn y bydd y newid yma'n arbed amser ac yn ei gwneud hi'n haws i Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a rhieni/gofalwyr ddelio ag unrhyw broblemau, fel bod y plentyn ag AAA yn cael yr help a'r cymorth sydd eu hangen arno, ar yr adeg y mae eu hangen arno.

# Oeddech chi'n gwybod?

Yn 2009, cafodd Lloegr wared ag adran 347 ar gyfer ei hysgolion annibynnol.

Yna yn 2010, gwnaethon ni ofyn i bobl ledled Cymru a oedden nhw'n meddwl y dylen ni wneud yr un peth.

Ar y pryd, roedd y rhan fwyaf o'r bobl o'r farn ei fod yn syniad da ond roedd rhai yn pryderu nad oedd gennon ni'r holl strwythurau a chynlluniau ar waith i wneud yn siŵr bod dysgwyr ag AAA yn ddiogel. Felly penderfynodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau y bydden ni'n cadw'r ddwy system hyd nes y gallen ni drefnu hyn.

**Ers hynny, rydyn ni wedi bod yn gweithio i wneud yn siŵr bod popeth mewn trefn i gefnogi'r newid yma.**

Hefyd, mae yna gysylltiadau rhwng y newidiadau rydyn ni'n ystyried eu gwneud i'r ffordd y mae ysgolion annibynnol yn cofrestru a gwaith arall sy'n digwydd i gefnogi plant a phobl ifanc ag AAA. Ar hyn o bryd, mae yna ymgynghoriad ar-lein ar hyn sy'n benodol i bobl ifanc.

Os ydych chi eisiau gwybod mwy am hyn, mae yna wybodaeth yma www.wales.gov.uk/consultations/education/senframeworkconsultation/?lang=en&status=open

# Enw newydd

**Ystyr AAA yw anghenion addysgol arbennig, ond mae yna derm arall hefyd, sef ADY, sy'n golygu anghenion dysgu ychwanegol.**

Mae anghenion dysgu plant a phobl ifanc ag ADY ar lefelau gwahanol, ac mae rhai o'r anghenion yma'n para am amser hir, tra bo eraill yn para am amser byr.

Mae'r rhain yn cynnwys plant a phobl ifanc a allai ddod o grwpiau fel:

- teuluoedd sy'n geiswyr lloches neu'n ffoaduriaid
- teuluoedd sy'n Sipsiwn neu'n deithwyr
- rhai y mae Saesneg yn ail iaith iddyn nhw
- blant ag AAA.

**Nawr, mae un term newydd yn cael ei ddefnyddio yn lle'r ddau derm AAA ac ADY: AY sy'n golygu anghenion ychwanegol.**

Mae AY yn gallu bod ar lefelau gwahanol ac mae'r help a'r cymorth sydd eu hangen ar blant a phobl ifanc yn gallu bod ar lefelau gwahanol hefyd.

Mae pob ysgol annibynnol yn gallu addysgu dysgwyr ag AY ond bydd yn rhaid iddyn nhw gofrestru os ydyn nhw'n derbyn dysgwyr ag AY sylweddol neu ddifrifol.

# Archwilio

Bydden ni'n gwneud yn siŵr bod yr holl wybodaeth am yr ysgolion yma ar gael ar-lein fel bod rhieni/gofalwyr ac awdurdodau lleol yn gwybod pa ysgolion sydd yn eu hardal a pha lefelau AY y maen nhw'n gallu eu cefnogi.

Bydden ni'n gwneud yn siŵr bod rhywun yn ymweld â phob ysgol annibynnol sydd wedi'i chofrestru i dderbyn dysgwyr ag AAA ac yn ei harchwilio bob blwyddyn, fel sy'n digwydd nawr.

Bydden ni hefyd yn gwneud yn siŵr bod Estyn yn eu harolygu, fel maen nhw'n ei wneud nawr.

Os nad yw ysgol annibynnol yn bodloni'r safonau uchel ac yn cefnogi anghenion y dysgwyr ag AY, yna gallwn ni ymyrryd yn gyflymach a gwneud yn siŵr bod yna gynllun ar waith i wella pethau.

# Canllawiau

I wneud yn siŵr bod pawb yn gwybod beth yw eu rolau a'u cyfrifoldebau, fe fydd rheolau a chanllawiau'n cael eu hysgrifennu ar gyfer:

- yr ysgolion annibynnol
- awdurdodau lleol
- rhieni/gofalwyr.

# Cwestiynau

**Ydych chi o'r farn ei fod yn syniad da cael gwared ag adran 347 a defnyddio adran 160 ar ei phen ei hun?**

✓ Ydw ✗ Nac ydw ? Ddim yn gwybod

**Ydych chi o'r farn bod y strwythurau a'r cynlluniau sydd ar waith yn gwneud yn siŵr bod dysgwyr ag AAA yn ddiogel?**

✓ Ydw ✗ Nac ydw ? Ddim yn gwybod

Oes yna unrhyw beth arall rydych chi eisiau ei ddweud?

. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

# Diolch am ddarllen hwn!

Anfonwch eich atebion i:

**AdditionalLearningNeedsBranch@cymru.gsi.gov.uk**

neu eu postio i:

Y Gangen Anghenion Ychwanegol
Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 3003

© Hawlfraint y Goron 2012
WG16527